Garddwriaeth Cymru Horticulture Wales

Hyrwyddo Clwstwr

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University

Cyflwyniad

Mae Garddwriaeth Cymru yn brosiect Cymru gyfan sy'n cefnogi busnesau garddwriaethol Cymru i leihau gwastraff, gwella oes silff cynnyrch ac optimeiddio enillion economaidd trwy gyfnewid gwybodaeth, gweithio ar y cyd a datblygu cadwyn gyflenwad.

Mae hyrwyddo'r greadigaeth o Glystyrau rhanbarthol o fewn y sector garddwriaeth yn ffurfio rhan o weithgareddau'r prosiect, fel offeryn i ledaenu gwybodaeth, galluogi gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth ledled Cymru.

Gan adeiladu ar brofiad a gwybodaeth helaeth a enillwyd gan Ifor Ffowcs-Williams, mae Garddwriaeth Cymru wedi creu'r model hwn y bydd y prosiect yn ei ddilyn i helpu hyrwyddo, a sefydlu tri chlwstwr ledled Cymru. Mae economi heddiw ynghylch cyflymder, hyblygrwydd a chysylltedd mewn amgylchedd ble mae arloesedd a thwf economaidd yn ddaearyddol gryf. Mae clystyrau ac arbenigaeth glyfar yn rhan annatod o'r realiti hwn.

Mae'r ffocws ar gyfer datblygiad economaidd yn symud o'r lefel genedlaethol, yn symud o gefnogaeth i ddiwylliannau a chwmnïau unigol. Heddiw, mae'r pwyslais ar ddatblygiad rhanbarthau a'u clystyrau. Mae'r dull gweithredu o'r gwaelod i fyny yn adlewyrchu mai wrth i gwmnïau fynd a dod, mae clystyrau cryf a datblygol yn darparu sefydlogrwydd economaidd i ranbarth.

Er bod clystyrau yn digwydd yn naturiol, nid oes angen gadael y datblygiad o glystyrau i hap a damwain. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae datblygiad clystyrau wedi dod yn fframwaith priflif i ddatblygiad rhanbarthol, yn arbennig ar draws Ewrop, yn darparu prif strategaeth sy'n ymdrin ag arloesedd, cynhyrchedd a natur gystadleuol.
Ifor Ffowcs-Williams, 2018.

Diffinio 'Clystyrau'

Mae clystyrau yn gysyniad ymbarél. Gydag amrywiaethau yn cael eu defnyddio ar draws diwydiannau, daearyddiaeth, a rhwng academyddion, asiantaethau cyhoeddus a grwpiau'r sector preifat, nid yw 'clystyrau' yn derm sydd wedi'i ddiffinio'n benodol.

Ar y lefel symlaf, clwstwr yw grŵp o gwmnïau sy'n gweithredu yn yr un sector ac sy'n agos i'w gilydd yn ddaearyddol. Gall clwstwr hefyd fod â mynediad at ystod o sefydliadau cefnogi megis, cymdeithasau masnach, siambrau masnach, sefydliadau technegol a hyfforddi, asiantaethau'r llywodraeth, prifysgolion ac ysgolion.

Mae clwstwr, felly, yn fwy na grŵp o gwmnïau. Gall fod (neu efallai nad oes) cysylltiadau agos rhwng y chwaraewyr gwahanol hyn.

Diffinio Clystyrau
"Mae clystyrau yn grynodiad daearyddol o gwmnïau, cyflenwyr arbenigol, darparwyr gwasanaeth, cwmnïau mewn diwydiannau cysylltiedig, a sefydliadau cysylltiol (e.e. prifysgolion, asiantaethau safonnau, cymdeithasau masnach) wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn maes penodol sy'n cystadlu ond hefyd yn cydweithio."

Yr Athro Michael E. Porter (2000) Location, Competition, and Economic Development: Local Clusters in a Global Economy, Economic Development Quarterly.

Bydd Garddwriaeth Cymru yn mabwysiadu'r diffiniad hwn o 'Glystyrau' a byddant yn ceisio creu tri chlwstwr daearyddol. Un yng Ngogledd Cymru, un yng Nghanolbarth Cymru ac un yn Ne Cymru.

Bydd bob clwstwr yn cynnwys tyfwyr, garddwyr a chyflenwyr, gyda chynrychiolwyr o'r Brifysgol yn darparu cymorth a mewnbwn gan arbenigwyr allanol yn ôl yr angen.

Ffurfio Clystyrau

Mae'r 12 Cam a drafodwyd o fewn y Llawlyfr Datblygu Clystyrau wedi'u hadolygu a bydd prosiect Garddwriaeth Cymru yn mabwysiadu'r prif bwyntiau ac yn mireinio'r model i gydfynd ag amcanion y prosiect a gofynion y sector. Felly, mae'r prosiect wedi datblygu a bydd yn dilyn 8 cam allweddol ar sail yr awgrymiadau a gwaith datblygu clwstwr achrededig Ifor Ffowcs-Williams:

A. Perthnasedd y Broses ac Adeiladu'r Sylfaen

Cam 1: Cyflwyno Perthnasedd

Ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a gweithgaredd hyrwyddol arall i hysbysebu cyfleoedd aelodaeth o glwstwr.

Lleoli datblygiad clwstwr i ddod o hyd i themâu cyffredin yng nghyswllt amcanion prosiect.

Sefydlu ymgysylltu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol.

Cam 2: Blaenoriaethu

Cyfathrebu amcanion y prosiect i aelodau'r clwstwr

Cytuno ar anghenion a mentrau'r sector a'r rhanbarth.

Cytuno ar weithgareddau a gosod amserlen.

Cam 3: Llywodraethu Clystyrau ac Arfarniad Parhaus

Gosod a chytuno ar gyfrifoldebau rôl.

Monitro parhaus.

Cytuno ar Amserlen Gofnodi.

B. Creu Momentwm

Cam 4: Dyfodol Dewisol

Gosod cyfeiriad a nodau yn fras.

Cytuno ar y canlyniadau a'r cyflawniadau gofynnol ar draws y clwstwr.

Gosod amserlen i'r canlyniadau.

Cam 5: Strategaeth Gychwynnol ac Agendâu Tymor Byr

Gweithredoedd ac amserlen gynnar.

Ymgysylltu â nodau tymor byr.

Cyflawni nodau tymor byr.

C. Ehangu'r Sylfaen

Cam 6: Lansio, Hyrwyddo a Chysylltu

Lansio i ddathlu llwyddiannau cychwynnol clystyrau unigol a hyrwyddo eraill.

Gweithio gyda chlystyrau i ddod â nhw ynghyd.

Creu astudiaethau achos.

D. Cynnal y Momentwm

Cam 7: Agenda Hirdymor

Gosod nodau a chyfeiriad hirdymor.

Darparu llwyfan i barhau ar ôl i'r prosiect Garddwriaeth Cymru ddod i ben.

Cam 8: Gwerthuso

A yw clystyru wedi gwneud gwahaniaeth?

Canlyniadau a chyflawniadau.

Creu adroddiadau ac adrodd yn ôl.

Mae'r prosiect Garddwriaeth Cymru yn brosiect tymor byr, ei brif nod yw hyrwyddo'r greadigaeth a sefydliad cynnar y tri chlwstwr rhanbarthol, eu cefnogi yn eu datblygiad, a darparu busnesau ag amgylchedd niwtral i ddatblygu perthnasau sydd o fudd i'r naill ochr a'r llall, sefydlu ffydd yn ei gilydd a dod o hyd i dir cyffredin. Gwneir hyn drwy bontio bylchau, ymgymryd ag ymchwil sydd ei angen o fewn y sector/rhanbarth, trefnu digwyddiadau i ddod â phobl ynghyd a chanfod gwybodaeth a chyfarwyddyd gan brosiectau eraill yn ôl yr angen. Bydd y prosiect yn cefnogi'r clystyrau cynaliadwy hyn a fydd yn parhau wedi i'r prosiect ddod i ben er budd hirdymor y sector.

horticulturewales.co.uk

/hortwales @hortwales